## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Ceinwen Thomas | Adran Etholiadol: | Mynydd-bach |
|---|---|---|---|

### Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliwyd cymorthfeydd bob tair wythnos yng Nghanolfan Gymunedol Treboeth a Chanolfan Gymunedol y Clâs.

Cynhaliwyd ymweliadau safle i edrych ar feysydd i'w gwella (mewn perthynas â phot dyranedig o arian DASA y gallai Cynghorwyr ei ddefnyddio ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn y ward).

Euthum i gyfarfodydd CHTh yn Nhreboeth a'r Clâs.

Roeddwn (ac ar yr adeg ysgrifennu rwyf o hyd) yn aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gwyrosydd.

### Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 9 | / | 12 | 75 | % |
| Y cyngor | 13 | / | 15 | 87 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 5 | / | 8 | 63 | % |
| Panel Llywodraethwyr yr ALl | 8 | / | 10 | 80 | % |
| Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg | 3 | / | 5 | 60 | % |
| CYFFREDINOL | 38 | / | 50 | 76 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

### Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Yn ychwanegol at yr uchod, euthum i'r canlynol:-

Pwyllgorau Craffu
Cyfarfodydd Cynllunio a Hawliau Tramwy Ardal 1
Y Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu
Archifau
Panel Llywodraethwyr yr ALl.

Yn ystod y flwyddyn ddinesig 2013-2014, roedd gennyf rôl dirprwy Arglwydd Faer. Roedd y rôl hon yn amrywiol ac yn cynnwys cwrdd ag amrywiaeth eang o aelodau'r cyhoedd.

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Gwariais f'arian gwella amgylcheddol dyranedig ar fesurau tawelu traffig a gosod llinellau melyn dwbl. Hefyd, arweiniais ddeiseb i geisio achub Swyddfa'r Post.

Fi oedd Cadeirydd Is-bwyllgor Adeiladu Eglwys St Alban ac roeddwn yn llwyddiannus wrth gael grant i estyn neuadd yr eglwys i ymgorffori cyfleusterau i'r anabl (DGA).

Cefais help i glirio tir tair eglwys yn f'ardal.

Cefais wybodaeth am grantiau i 'Ganolfan Calon Lân', Capel Caersalem Newydd ac Eglwys St Alban. Roedd pob un yn llwyddiannus.

Hefyd, cefais wybodaeth am Ysgol Gynradd Gwyrosydd mewn perthynas â grantiau, y gwnaed cais amdanynt erbyn hyn.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Oherwydd fy rôl fel dirprwy Arglwydd Faer, nid wyf wedi gallu ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant yn y flwyddyn ddinesig 2013-2014.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Cyn i mi gael f'ethol ym 1990, roeddwn yn gwybod y byddai'r gwaith yn cynnwys gweithio 7 niwrnod yr wythnos (24/7).

Rwyf wedi bod yn brysur yn ymateb i gwynion dros y ffôn a thrwy e-bost. Rwyf bob amser wedi dychwelyd galwadau os gadawyd negeseuon i mi gan f'etholwyr a sicrhau fy mod yn ymdrin â materion dros ben yn rheolaidd.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Dirprwy Arglwydd Faer - £18,445

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 14.05.14 |